

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 29

Key language

Welais i mo etc
Tan
...wr, ...wraig

New Words

pryderus	worried
dedfrydu	to sentence
adroddiadau	reports
cosb	punishment
carchar gohiriedig	suspended prison sentence
rhydd	free
braidd	rather
byr-rybudd	short notice
osgoi	to avoid
ar wahân	apart
cyflog	wages
ail-law	second hand
addo	to promise
gweddill	the rest
llenwi	to fill
bysedd	fingers
gwirion (NW)	silly
straen	strain
yn falch	glad
camddeall	to misunderstand

Main Grammatical Points

Let's look at some negative forms of past and future tenses. For example, Welais i ddim - I didn't see or Wela i ddim - I won't see

Verbs in the negative, beginning in P, T and C, take the aspirate mutation - P becomes Ph - Phrynais i ddim. T becomes Th - Thalais i ddim, and C becomes Ch - Chofiais i ddim.

There is another feature of these verbs that you should be aware of.

I didn't see a man	Welais i ddim dyn
However, I didn't see THE man is	Welais i MO'r dyn
Phrynodd e ddim car	He didn't buy a car
Phrynodd hi mo'r car	She didn't buy THE car
Choginion ni ddim teisen	We didn't cook a cake
Choginion ni MO'r deisen	We didn't cook THE cake

In the present/future tense:

Wela i ddim car	I don't see a car
Wela i MO'r car	I don't see THE car
Ddarllenan nhw ddim llyfr	They won't read a book
Ddarllenan nhw MO'r llyfr	They won't read THE book
Wisgwch chi ddim cot	You won't wear a coat

Wisgwch chi MO'R got You won't wear THE coat

Note that with a proper noun MO is used

Welais i MO Beca
I didn't see Beca

Ffonian nhw MO Arwyn. They won't phone Arwyn

Agnes says 'Dw i ddim yn credu y bydd e'n ôl yn yr ysbyty yma tan bore fory'
'I don't think he'll be back in this hospital till tomorrow morning.'

Tan is an useful preposition, meaning 'till' or 'until'

Hwyl tan ddydd lau	All the best 'till Thursday
Aros tan yr wythnos nesaf	Wait 'till next week
Bydd rhaid iti aros tan y flwyddyn nesaf	You'll have to wait till next year

Many words in Welsh which refer to occupations have the ending - wr.
This wr comes from gwr, meaning man.

Jenny asks Agnes:	'Beth mae'r cyfreithiwr yn ddweud?'
Agnes corrects her by saying:	'Cyfreithwraig yw hi Jenny.'

The wraig ending refers to woman so obviously the solicitor is female.

Look at some other forms

Arbenigwr	Arbenigwraig
Cyhoeddwr	Cyhoeddwraig
Rheolwr	Rheolwraig
Tafarnwr	Tafarnwraig

One word of caution - wraig endings do not always replace the wr endings

Often you will find -ydd and -yddes with words referring to occupations.

For example: ysgrifennydd and ysgrifenyddes.

Another word of caution - not all words ending in -ydd take the -yddes form.

Fferyllydd is a male and female chemist

Ysbyty Brynaber: Episode 84

Jenny and Agnes are discussing Brian's court verdict. Jenny is very apprehensive about the sentence that he might receive.

Jenny calls to see Dic at his flat. She has some startling news for him.

Geirfa

pryderus	worried
dedfrydu	to sentence
adroddiadau	reports
cosb	punishment
carchar gohiriedig	suspended prison sentence
rhydd	free
braidd	rather
byr-rybudd	short notice
osgoi	to avoid
ar wahân	apart

Golygfa 1

Jenny - Agnes?

Agnes - Shwmai Jenny. Dw i newydd orffen fy nghino ...

Jenny - Wyt ti wedi gweld Dr Richard Allen heddiw?

Agnes - Dr Allen? Na...Na...A dweud y gwir dw i ddim yn credu ei fod e yn ôl yn yr ysbyty yma tan fore dydd lau...

Jenny - O...

Agnes - Pam? Oes rhyw broblem?

Jenny - Na...Na, na...

Agnes - Ti'n siwr nawr? Ti'n edrych yn bryderus iawn i fi...

Jenny - Na. Does dim problem. Mi wela i Richard fore dydd lau....Sut wyt ti ydy'r cwestiwn? Ar ôl wythnos diwetha?

Agnes - Ie...Wel...Ches i a Brian a'r plant ddim penwythnos da iawn...

Jenny - Dw i'n siwr...

Agnes - Oedd Brian druan ddim yn gwybod beth i wneud a fe'i hunan...Na fi chwaith...Gafodd y ddau ohonon ni sioc ofnadwy...Roeddwn i'n meddwl y byddai'r rheithgor yn cael Jac Whelan yn euog...

Jenny - Ond ddim Brian.

Agnes - Ddim Brian...Na...Byth. Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai Brian yn euog... es i braidd yn 'hysterical', ti'n gwbod.

Jenny - Pryd mae Brian a Jac Whelan yn mynd i gael eu dedfrydu?

Agnes - Diwedd yr wythnos nesa...

Jenny - Mor fuan â hynny?

Agnes - Ie. Erbyn hynny fydd y Barnwr wedi darllen yr adroddiadau i gyd...Ac wedyn fe fydd e'n pwyso a mesur y cyfan...

Jenny - A phenderfynu ar y gosb.

Agnes - Ie...Penderfynu ar y gosb...

Jenny - A beth wyt ti'n feddwl fydd y gosb gaiff Brian?

Agnes - Does dim syniad gyda fi...

Jenny - Beth mae'r cyfreithiwr yn ddweud?

Agnes - Cyfreithwraig yw hi, Jenny...

Jenny - Cyfreithwraig. Sori. Be mae'r gyfreithwraig yn ddeud sy'n mynd i ddigwydd?

Agnes - Yn ôl Cathy Davies...Wel...Gan fod Brian ddim wedi bod o flaen y llys o'r blaen...efallai caiff e ddirwy...Neu garchar gohiriedig falle. Neu wrth gwrs... gall y barnwr yrru Brian i'r carchar...Ag os digwyddiff hynny, fe fydd fy mywyd i yn newid am byth...Achos fel dwedais i wrthot ti o'r blaen, Jenny ... os caiff Brian ei yrru i garchar ... dw i'n credu af i'n bishys...

Golygfa 2

Dic - Helo?

Jenny - Dic...? Fi sy yma...Jenny...Wyt ti'n rhydd?
 Dic - Ym
 Jenny - Oes yna rywun hefo ti rwan?
 Dic - Na, na. Dw i ar fy mhen fy hunan...
 Jenny - Alla i ddod i fyny...?
 Dic - Ie...Ie, ie...O.K...Dere lan...
 Jenny - Heia...
 Dic - Hi. Dere i mewn...
 Jenny - Sori fy mod i wedi galw braidd yn fyr-rybudd fel hyn...
 Dic - Paid â beco. Dw i'n licio pobl yn galw yn fyr-rybudd...
 Jenny - Mae yna fyr-rybudd a byr-rybudd...Ond roeddwn i'n siarad hefo Agnes amser cinio yn y cantîn...Ia...A dwedodd hi dy fod ti ddim yn ôl yn y gwaith tan fore dydd lau...?
 Dic - Ie. Dyna ti. Dw i ffwrdd tan fore dydd lau...
 Jenny - Roeddwn i eisiau dy weld ti cyn hynny...Alla i siarad yn blaen am eiliad?
 Dic - Wrth gwrs...
 Jenny - Wyt ti wedi bod yn trio fy osgoi i?
 Dic - Nag ydw...Beth sy'n gwneud iti feddwl hynny?
 Jenny - Bob tro dw i'n gweithio shifft...am ryw reswm...wel... rwyf ti wastad i ffwrdd...
 Dic - Bob tro?
 Jenny - Y rhan fwyaf...Yn ddiweddar, beth bynnag...Ti'n trio fy osgoi i, on'd dwyt ti?
 Dic - Na...
 Jenny - Ateb fi'n onest, Richard.
 Dic - Dw i ddim yn trio dy osgoi di.
 Jenny - Achos...
 Dic - Achos beth?
 Jenny - Liciwn i wybod ble dw i'n sefyll...A beth sy'n mynd i ddigwydd i ni...Ti'n gwbod sut dw i'n teimlo tuag atat ti. Dweud dy fod ti'n teimlo yr un fath.
 Dic - Dw i'n beco, Jenny.
 Jenny - Paid â phoeni!
 Dic - Alla i ddim peidio...Beth am Arwyn?
 Jenny - Mae Arwyn a fi yn cysgu ar wahân rwan. A dw i wedi penderfynu ei adael o.
 Dic - Pwylla nawr.
 Jenny - Na. Does dim pwylo i fod. Dw i wedi penderfynu. A dyna beth dw i'n mynd i wneud...

Ysbyty Brynaber: Episode 85

Brian and Agnes are in the car showroom. Agnes is trying to persuade her husband to buy her a new car.

Jenny Saunders calls at the garage for some petrol – as she is about to leave, she meets Wendy. They engage in a frank conversation.

Geirfa

cyflog	wages
ail-law	second hand
addo	to promise
gweddill	the rest
llenwi	to fill
bysedd	fingers

Golygfa 1

Brian - Tria fo eto...

Agnes - Beth sy'n bod?

Brian - Dw i ddim yn gwybod

Brian - Na. Stop.

Agnes - Rhodri...Beca...Mas...Dewch nawr...A Rhodri! Edrycha! Dy fag di! Yffach! Fyddet ti'n anghofio dy ben oni bai ei fod e'n 'stuck' i dy gorff di, grwt...

Brian - Ewch i mewn i nghar i, blant...

Agnes - Mae'r car yma'n anobeithiol, Brian...A ti wedi addo car newydd i fi ers misoedd....

Brian - Fedra i ddim jest rhoi car i ti fel'na siwr...

Agnes - Allwn i brynu un o dy garej di.

Brian - Hefo be?

Agnes - Fy nghyflog i.

Brian - Paid â dechra siarad yn wirion...Mae dy gyflog di'n mynd ar dalu morgej y ty yma bob mis...

Agnes - Beth am rywbeth ail-law?

Brian - Beltiau mlaen rwan, blant...

Agnes - Does dim rhaid i fi gael car newydd oes? Wneith un ail-law y tro yn iawn...

Brian - Gad ti'r cwbbwl i mi... mi ga i gar iti...

Agnes - Ond pryd?

Brian - Cyn bo hir rwan...

Agnes - Ond rwyt ti wedi addo car i fi ers misoedd...A mae misoedd wedi mynd heibio a does dim byd wedi digwydd!

Brian - Dw i'n addo cael car i ti o fewn y mis rwan, Agnes...

Agnes - A ti'n addo mynd â'r hen racsyn yna i ffwrdd am byth hefyd?

Brian - Weli di mohono fo byth eto...

Agnes - Ti'n addo nawr?

Brian - Addo.

Agnes - Wir?

Brian - Agnes - plis paid â mynd ymlaen am y peth! Dw i wedi dweud y cei di gar - a dw i'n benderfynol o gadw at fy ngair...O'r gorau?

Golygfa 2

Brian - A dydych chi ddim eisiau 'receipt'...? Na. Roeddwn i'n meddwl mai dyna beth ddwedoch chi, Mrs Hughes...Diolch yn fawr ichi...A cofiwch fi at Arnold a gweddill y teulu...

Brian - Bora da...

Jenny - Bora da...

Brian - Pump pedwar, ia?

Jenny - Ia. Dyna chi. Pwmp pedwar...

Brian - Tri deg naw punt ac wyth deg un ceiniog?

Jenny - O'n i'n trio rhoi gwerth pedwar deg punt o betrol yn y tanc...

Brian - Oedd o'n gwrthod cymryd mwy?

Jenny - Oedd. Mae o wedi ei lenwi reit i'r top.
 Brian - Diolch yn fawr...Ydych chi eisiau 'receipt'?
 Jenny - Na, dim diolch...Gyda llaw, Brian - roedd hi'n wir ddrwg gen i glywed am yr achos llys wythnos diwetha...
 Brian - Ia...Wel...Fel'na mae hi...
 Jenny - Dw i'n gobeithio bydd pethau yn well yr wythnos nesa...
 Brian - A fi! Dw i'n croesi fy mysedd...A gobeithio â i ddim i'r jêl.
 Jenny - Gobeithio wir...A phob lwc...
 Brian - Diolch yn fawr. A chofiwch fi at Arwyn.
 Jenny - Dw i'n siwr o wneud...Hwyl!
 Oh! Wendy - Helo!
 Wendy - Heia...
 Jenny - Dyma sypreis. Dw i heb dy weld ti ers...
 Wendy - Ers i fi gael kick-out o'r ysbyty gan Sister Agnes Rees.
 Jenny - A sut mae pethau?
 Wendy - Beth ti'n feddwl? Sut mae petha?
 Jenny - Sut ma' pethau'n mynd? Wyt ti wedi cael gwaith eto?
 Wendy - Gwaith? Fi? Are you joking? You're a fine one to come on with the big heart and I'm-all-concerned-for-your-welfare ...Ti'n cofio pwy na'th dympo arno i? Ti. Big time, missus.
 Jenny - Edrycha rwan, Wendy... gad inni gael un peth yn glir...
 Wendy - Dw i'n gwybod beth ti'n mynd i ddweud cyn iti dechrau...
 Jenny - Wel, mi ddweda i o eto. Y cwbl wnes i ddweud mewn adroddiad i'r Panel Disgyblu oedd beth welais i. Dim mwy. Dim llai. A'r hyn weles i y bore hwnnw yn swyddfa Sister Agnes Rees oedd ti yn rhoi slap iddi ar draws ei boch.
 Wendy - Ond beth os fyddet ti wedi dod i mewn dau eiliad yn gynt...Beth fyddet ti wedi'i weld wedyn?
 Jenny - Dwed ti wrtho i.
 Wendy - I'll tell you what...Fyddet ti wedi gweld Sister Agnes bitch Rees yn rhoi slap i fi. O.K.?
 Jenny - Dyna beth wyt ti'n ddweud rwan...
 Wendy - Na. Dyna beth dw i wedi ddweud o'r cychwyn cynta un!
 Jenny - Mae'r hyn sydd wedi digwydd, wedi digwydd.
 Wendy - Too true.
 Jenny - A fedri di na fi na neb arall droi'r cloc yn ôl.
 Wendy - Na, efallai. But the future is yet to be made. And be made it will...So watch this space...and see what happens...

Ysbyty Brynaber: Episode 86

'Watch this space and see what happens' were Wendy's last words to Jenny. She elaborates on her plan for revenge.

Wendy then meets Brian. He tries to explain why he has not contacted her recently. Wendy gives Brian a piece of her mind. She pulls no punches!

Geirfa

gwirion (NW)	silly
straen	strain
yn falch	glad
camddeall	to misunderstand

Golygfa 1

Jenny - 'Watch this space and see what happens'...Beth?

Wendy - Fel dwedes i, Dr Saunders... 'Watch this space and see what happens...'

Jenny - Ond beth sy'n mynd i ddigwydd?

Wendy - Wait and see...

Jenny - Edrycha yma, Wendy...Ti ddim yn mynd i wneud dim byd gwirion i dy hun wyt ti?

Wendy - Beth sy'n gwneud i ti feddwl hynny?

Jenny - Y ffordd rwyf ti'n siarad...Beth wyt ti'n mynd i 'neud? Dwed wrtho i!

Wendy - Ddweda i 'secret' bach wrthot ti...O.K?

Jenny - O.K...

Wendy - Ti'n gweld...Mae rhai pobl yn meddwl eu bod nhw wedi cael clean 'getaway' gyda'n sacco fi...That they've got rid of me...and good riddance...

Jenny - Does neb yn meddwl hynny...

Wendy - Ow, oes...Maen nhw...But that's a mistake, ti'n gweld...That's a very, very big mistake...Because I'm telling you - they've got another think coming - and it's coming to them sooner than they think...Twdl-w!

Brian - Beth oedd hynna i gyd?

Wendy - Bore da, Wendy!

Brian - Am beth oeddet ti a'r ddynes yna'n siarad tu allan yn fan'na rwan?

Wendy - Sut wyt ti? Mae'n neis dy weld di...'

Brian - Bora da, Wendy. Sut wyt ti? Neis dy weld di...Rwan, ateb fi, am beth oeddet ti a Jenny Saunders yn siarad?

Wendy - Yffach, Brian...Steady on nawr...Pam wyt ti mor paranoid?

Brian - Dw i ddim yn paranoid...

Wendy - Wyt, rwyf ti...

Brian - Dw i ddim yn paranoid...

Wendy - Pam wyt ti'n bihafio fel hyn 'te?

Brian - Sori. Mae'n ddrwg gen i...Jest bod...

Wendy - Beth?

Brian - Wythnos diwetha...a'r straen o fod yn y llys yna... Ac mae wythnos nesa o fy mlaen i eto...

Brian - A mwy fyth o straen...Achos dw i ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd imi...Ddim yn gwybod os bydda i'n mynd i garchar neu beidio...

Wendy - Ac rwyf ti'n gweld bai arna i?

Brian - Bai arnat ti?

Wendy - Am ddweud wrthot ti fy mod i'n disgwyl? Am fy mod i wedi rhoi mwy o straen arnat ti?

Brian - Na, na...

Wendy - Ti'n siwr?

Brian - Ydw, ydw...Wrt h gwrs fy mod i'n siwr...

Wendy - Achos fe wnes i ... I can't get my head around this to say it in Welsh, it's too complicated...

...I knew you were stressed out by the court case, Brian...I knew how much worry you had...But I was pregnant...I am expecting your baby...

Brian - Wendy -

Wendy - Na, plis. Gad i fi gwplu...And I thought to myself, when do I tell him? When do I share this news? There never is going to be a "good time"...So I said, 'Wendy, love, you've just got to be truthful and tell him honestly what the situation is...

Brian - A dw i'n falch dy fod ti wedi dweud wrtho i.

Wendy - Wyt ti?

Brian - Ydw. Wrth gwrs fy mod i...

Wendy - I really want this baby, Bri. Dw i really, really eisiau fe...Dw i really, really yn edrych ymlaen...Ti, fi a'r babi yn y fflat...yn y marina...it'll be so perfect...

Wendy - And you also want it as much as I do, don't you? Brian?

Brian - Wendy...Edrycha...Roeddwn i wedi meddwl galw heibio'r fflat yr wythnos yma...Ond mae pethau wedi mynd yn drech na fi...

Wendy - Wedi what?

Brian - Wedi mynd yn drech na fi...O, argol fawr! Sut ddiawl mae dweud hyn yn Saesneg? Things have got a bit on top of me...

Wendy - I know exactly how you feel, pal. I've had someone on top of me as well - and now he doesn't want to know!

Brian - Wendy!

Wendy - Dw i'n gwybod yn gwmws beth wyt ti'n feddwl ohona i nawr!

Brian - Hei! Cadw dy lais i lawr...

Brian - Wendy, paid! Rho'r gora iddi rwan!

Wendy - You haven't heard the last of this!

Brian - Gad inni bwylllo a siarad yn gall!

Wendy - Sod off!

Dic - Hasl?

Wendy - Meindia dy fusnes!

Dic - Wendy? Ti'n iawn?

Brian - Wendy!

Wendy - Mas o'n ffordd i!

Dic - Ti'n O.K.?

Wendy - Jyst gad fi fod! Pam na neith pawb jest gadael i fi fod!

Brian - Wendy - tyrd yn ôl i'r swyddfa! Ti wedi camddeall beth roeddwn i'n trio ddweud!

Wendy - Dw i ddim wedi camddeall dim! Now get out of my way you before I run you down!

Synopsis

Brian has been found guilty of handling stolen cars and is awaiting sentence

It appears that Dic is deliberately avoiding Jenny. When they eventually meet, Jenny tells him that she has decided to leave Arwyn. Dic advises her not to rush into such a rash move.

Wendy and Brian have had a huge row - Wendy thinks that Brian is no longer interested in her and she showers him with a mouthful of abuse.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'I didn't buy the car'?
 - a) Phrynais i ddim car
 - b) Phrynais i ddim y car
 - c) **Phrynais i mo'r car**
2. How would you translate 'They will not read a book' into Welsh?
 - a) Ddarllenon nhw ddim llyfr
 - b) Ddarllenan nhw mo'r llyfr
 - c) **Ddarllenan nhw ddim llyfr**
3. What is the word in north Wales for 'silly'?
 - a) gwared
 - b) **gwirion**
 - c) gwir
4. What's the Welsh for 'female solicitor'?
 - a) **cyfreithwraig**
 - b) cyfieithydd
 - c) cyfreithiwr
5. How would you say 'Until next week' in Welsh?
 - a) Tan y mis nesaf
 - b) **Tan yr wythnos nesaf**
 - c) Tan y tro nesaf
6. What is the Welsh for 'I'm crossing my fingers'?
 - a) Dw i'n croesi my modiau
 - b) **Dw i'n croesi fy mysedd**
 - c) Dw i'n croesi fy mreichiau